

CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN
COFNODION CYFARFOD CHWEFROR 2021
1 CHWEFROR 2021 7.30 o bell drwy gyfrwng fideo

1. Presennol

Nia Povey, Glyn Griffiths, Elin Jones, Dafydd Watts

Clerc: Huw Rowlands

Cadeirio: Nia Povey

2. Datgan Diddordeb

Dim

3. Ymddiheuriadau

Eleri Owen, Dion Rhys, Llio Griffiths, Richard Jones

4. Cadarnhau Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 11 Ionawr 2021

Cynnig: Glyn Griffiths

Eilio: Nia Povey

5. Materion yn codi o'r Cofnodion

5.1 Anghenion Tai Lleol a Deiseb Trigolion Garreg Frech

Parheir i ddisgwyl fersiwn terfynol o'r Arolwg Anghenion Tai. Rhaid cael hwn yn derfynol cyn medru trefnu cyfarfod cyhoeddus.

Yn y cyfamser, mae Cynefin wedi egluro sut yr oeddynt yn cyfrifo'r nifer sydd angen tai, a nifer y tai gwag oedd yn yr adroddiad drafft.

Niferoedd sydd angen tai

Mae'r adroddiad yn crybwyll angen am 52 tŷ. Fodd bynnag, dydy hynny ddim yn golygu angen am 52 tŷ, gan fod pobl yn aml yn cofrestru angen am dŷ efo mwy nag un sefydliad - e.e. ar yr holiadur, gyda thîm opsiynau

tai Gwynedd a chofrestr Tai Teg. Fel arfer tua 1/3 o'r angen yw'r angen mewn gwirionedd.

Byddai'n rhaid gwneud gwaith pellach cyn dod i gasgliad terfynol am y gwir angen.

Tai Gwag

Bydd yr adroddiad yn cael ei addasu i adlewyrchu niferoedd y tai gwag fel a ganlyn.

Tai gwag: Cyfanswm o 9. 4 tŷ yn wag am fwy na 6 mis ond llai na 12. 5 tŷ yn wag am gyfnod o dros 12 mis.

Mae'n bosib y bydd y tai sydd wedi bod yn wag am lain a 12 mis yn dod yn ôl i ddefnydd yn fuan.

Ail gartrefi: 17

5.2 13 Garreg Frech

Cafwyd ymateb gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Ni allant edrych ar gwynion gan gynghorau cymuned. Mae'n rhaid i unrhyw gŵyn fod gan unigolyn. Roedd y Cynghorydd Glyn Griffiths yn gwybod am unigolyn yn lleol fyddai'n debygol o fod yn fodlon gwneud cwyn.

5.3 Y Ganolfan

Mae adran eiddo Cyngor Gwynedd wedi cytuno i ddanfôn syrfêwr allan i wneud arolwg o gyflwr Y Ganolfan. Bydd yn galw heibio ddydd Iau¹¹ Chwefror. Cytunodd y Cynghorydd Dafydd Watts i agor a chau'r Ganolfan iddo.

Cafwyd ymateb gan adran drethi Cyngor Gwynedd o ran atebolrwydd presennol a gorffennol y cyngor cymuned i dalu treth fusnes am Y Ganolfan, ond doedd yr ymateb ddim yn gwneud synnwyr, ac felly bydd yn rhaid i'r Clerc ohebu efo nhw ar y mater unwaith eto.

5.4 Mynwent Tan Lan

Cafwyd pris o £870 gan Hefin Pritchard i osod ffens a phris o £765 gan Gwion Evans i osod ffens efo polion gyda 15 mlynedd o fywyd ar hyd wal isaf y fynwent. Doedd Dylan Edwards ddim am roi pris.

Cytunwyd i ofyn i Gwion Evans osod ffens ar ochr fewnol wal isel wal y fynwent.

Cynnig: Glyn Griffiths

Eilio: Dafydd Watts

5.5 Goryrru Llanfrothen

Mae Gan Bwyll wedi cytuno i osod fan yn Llanfrothen, ond mae'n debyg y bydd hi tua'r Pasg cyn y byddant yn gwneud hyn. Gan fod y traffig ar hyn o bryd yn isel oherwydd y cyfnod clo, cytunwyd fod hyn yn synhwyrol.

5.6 Polisiâu'r Cyngor Cymuned

Cafwyd trafodaeth ar bolisi gwerthuso'r Clerc. Cytunwyd i fabwysiadu'r polisi mewn egwyddor.

Byddai angen strwythur apêl, ac felly trafodaeth ar bwy fyddai'n gweithredu amrywiol swyddogaethau'r polisi gwerthuso.

Cytunwyd i drafod pwy fyddai'n gwneud beth yng nghyfarfod nesaf y Cyngor cymuned.

5.7 Cyfarfod Ymddiriedolwyr Brondanw

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Ymddiriedolwyr Brondanw i holi pryd y byddai cynllun hydro Croesor yn dod â buddiannau i'r gymuned. Roedd cytundeb y byddai yna fuddiannau cymunedol yn rhan o'r cais cynllunio, ond hyd yn hyn doedd dim manylion wedi eu derbyn gan Ymddiriedolaeth Brondanw.

5.8 Tir Rhent yn Llanfrothen

Mae angen diweddarau a ffurfioli statws y tir sydd ar rent yn Llanfrothen.

Mae angen hefyd ystyried sefyllfa yswiriant y cae.

Awgrymodd y Cyngorydd Glyn Griffiths fod angen ystyried rhoi cytundeb tenantiaeth busnes fferm ar y tir, a byddai'n darparu copi drafft.

5.9 Croesfordd Wern

Mae'r broblem o ddŵr yn llifo i'r ffordd yn parhau. Ymddengys fod y broblem yn deillio yn rhannol oherwydd nad oedd y tir cyfagos yn galluogi dŵr i lifo ac felly roedd yn llifo i'r ffordd.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn gofyn iddynt ail edrych ar y mater.

.

6. Materion Ariannol

6.1 Cyflog Clerc Ionawr 2021 –

£214.20

TWE £53.60

6.2 Anfoneb Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd £192.00

6.3 Scottish Power Anfoneb 6 Ionawr 2021 £47.26

6.4 Pearson & Co. Ltd – Torri Coed Mynwent Tan Lan £2,220.00

6.5 Cymeradwyo Ffurflen Flynyddol 2019/20

Cymeradwywyd Ffurflen Flynyddol 2019/20, a derbyniwyd adroddiad yr archwiliwr allanol.

Nodwyd dau fater gan yr archwiliwr allanol, sef gwall yn ateb un cwestiwn ar y ffurflen flynyddol ac angen i ddiwygio'r Rhestr Asedau efo dyddiad prynu a gwerth ased.

Cynnig: Glyn Griffiths

Eilio: Nia Povey

7. Gohebiaeth

7.1 Urdd Gobaith Cymru – cais am nawdd

Cafwyd gohebiaeth gan yr Urdd yn gofyn am nawdd ariannol. Penderfynwyd peidio â rhoi nawdd gam mai arferiad y Cyngor cymuned oedd rhoi cyfraniad ariannol pan fod yr Eisteddfod yn yr ardal.

7.2 Sgam Covid-19 a'r GIG

Cafwyd gohebiaeth gan Heddlu Gogledd Cymru yn cyfeirio at sgAm ble roedd rhywrai yn cysylltu efo unigolion i drefnu brechlyn COVID ac yn gofyn am dâl a manylion personol. Derbyniwyd er gwybodaeth.

8. Ceisiadau Cynllunio

Dim

9. Materion Eraill

9.1` Y Farchnad Dai Gwyliau – Cefnogi Cyngor Tref Nefyn

Cytunwyd i gefnogi Cyngor Tref Nefyn drwy ysgrifennu llythyr at Lywodraeth Cymru yn nodi pryder am y nifer o ail gartrefi yn yr ardal.

Cynnig: Dafydd Watts

Eilio: Glyn Griffiths

9.2 Cymeradwyo Asesiad Risg 2020/21

Trafodwyd asesiad risg 2020/21 sydd angen ei gymeradwyo.

Cytunwyd ei drafod yn y cyfarfod nesaf.

Trafodwyd hefyd y Rhestr Asedau. Cytunwyd fod y meinciau a'r eiddo canlynol yn perthyn i'r Cyngor cymuned:-

- Mainc er cof am Myrfyn Huws a brynwyd yn 2011 am tua £500, sydd wedi ei lleoli ger London House, Llanfrothen, ger y gofgolofn.

- Mainc er cof am Merfyn Williams a brynwyd yn 2008 am tua £500, sydd wedi ei lleoli ger yr hen ysgol yng Nghroesor.
- Mainc ym mynwent Tan Lan a brynwyd yn 2014 am tua £500.
- Mainc Tŷ Mawr a brynwyd yn 1975 am tua £25 ac sydd ar waelod ar waelod rhiw Tŷ mawr am yr hen ffordd am Bryn llydan.
- Hysbysfwrdd Croesor a osodwyd yn 1988 am gost o tua £75.
- Cadair risiau'r Ganolfan a osodwyd tua 2005 am gost o tua £600.
- Cadeiriau a byrddau yn Y Ganolfan oedd yn rhodd gan yr ysgol a phiano yn rhodd gan yr ysgol ar gyfer yr ysgol feithrin ym Medi 1992.

9.3 Dŵr ym Morfa Wern

Mae yna gynnydd ym maint y dŵr sydd yn sefyll ym Morfa Wern na fyddai ers talwm, ac mae pryder y gall tir y morfa fod yn agored i lifogydd os na fydd yr afon Glaslyn yn cael ei lledu o aber yr afon Glaslyn hyd at Dŷ Newydd Morfa. Mae hefyd angen glanhau'r afon yn y fan hyn.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyfoeth Naturiol Cymru ar y mater yma.

9.4 Ymgynghoriad Parc Cenedlaethol Eryri ar Gynllun Llesiant Corfforaethol 2021-2026

Cytunwyd y gallai pawb edrych ar hwn fel unigolion ac os oedd angen medrid trafod y mater yng nghyfarfod mis Mawrth.

9.5 Cynllun Ceir Cwmni Bro Stiniog

Eglurodd y Cynghorydd Dafydd Watts ei fod yn deall fod Y Dref Werdd am wneud cais i gael cerbyd trydan i Ffestiniog ac un ar gyfer Penrhyndeudraeth/Llanfrothen.

Cytunodd y Cynghorydd Dafydd Watts i wneud ymholiadau pellach ac i weld os oedd yna bres ar gael i gael pwynt gwefru car yn Ffestiniog, Penrhyndeudraeth a Llanfrothen.

<p>Dyddiad y cyfarfod nesaf – cyfarfod o bell – 1 Mawrth 2021 am 7:30 yr hwyr.</p>
